# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2280 |
|---|---|
| Committee | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Date | 22/03/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr John C. Morgan (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Guest)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Guest)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Guest)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Guest)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Guest)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Guest)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Guest)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Richard Bridge (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary) |

| Item ID | 4409 |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 4410 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |

| | |
|---|---|
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr<br>G. Collier, J. Collins a L. Parsons |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4411 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4413 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4562 |
| Item Title | Adroddiad Blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2020/21 Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim Masnachol yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y dirprwyon diweddar yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a theimlai y dylai hyn fod wedi bod yn eitem ar Agenda'r Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried cyn gwneud unrhyw ddirprwyon a rhoi esboniad.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod defnydd dirprwyon ar gyfer Craffu a Phwyllgorau eraill yn cael ei nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac y byddai angen gwneud unrhyw newidiadau drwy'r Gweithgor Cyfansoddiadol.<br><br>Atebodd yr Aelod fod y Cyfansoddiad yn ddogfen eang. Teimlai fod dirprwyo Aelodau Craffu yn effeithio ar yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys presenoldeb Aelod mewn ffurf fer a dywedodd nad oedd yn cynnwys presenoldeb Aelodau Gweithredol. Teimlai fod defnydd dirprwyon mewn Pwyllgorau Craffu yn newid sydyn a theimlai y dylid cael sgyrsiau democrataidd am hyn a holodd pan y digwyddodd dirprwyon ar ganol y tymor ac nid yn y CCB.<br><br>Yng nghyswllt y ffigurau presenoldeb, derbyniodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y pwynt na chaiff ffigurau presenoldeb ar gyfer Aelodau Gweithredol eu cynnwys yn yr adroddiad a chadarnhaodd y byddai'r system |

sy’n cael ei defnyddio’n awr yn dangos presenoldeb Aelodau ym mhob pwyllgor a chyhoeddir hynny mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Ar ddefnydd dirprwyon, dywedodd Aelod fod hon yn broblem newydd a gallai o bosibl fod gwahanol Aelodau ym mhob Pwyllgor Craffu a holodd pryd a phwy wnaeth y penderfyniad.

Ailddywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y caiff y gallu i ddefnyddio dirprwyon ei nodi yn y Cyfansoddiad a gytunwyd gan y Cyngor. Os oes unrhyw gwestiynau neu ddiwygiadau i’r Cwestiynau, gallai Aelodau godi’r mater drwy’r Gweithgor Cyfansoddiadol cyn ei gymeradwyo yn y Cyngor. Derbyniodd yr Aelod ymateb y Swyddog a dywedodd nad oedd pob Aelod yn rhan o’r Gweithgor Cyfansoddiadol a gofynnodd eto pwy wnaeth y penderfyniad.

Dywedodd Aelod arall y teimlai mai’r broblem gyda dirprwyon oedd na fyddai’r Aelodau hynny oedd yn dirprwyo o bosibl yn gyfarwydd gyda materion cyfredol y Pwyllgor Craffu hwnnw. Roedd rheoleiddwyr allanol yn y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymunedol ac roedd yn pryderu efallai na fyddai Aelodau dirprwy yn gwerthfawrogi cymhlethdod rhai o’r materion.

Yng nghyswllt cysylltedd technoleg gwybodaeth, teimlai’r Aelod yn gryf y dylai uwch swyddogion sicrhau fod ganddynt gysylltedd rhyngrwyd da er mwyn medru cymryd rhan mewn cyfarfodydd. Teimlai fod hon yn broblem barhaus gyda rhai uwch swyddogion a bod angen ei datrys. Atebodd y Prif Swyddog Interim Masnachol na wyddai am unrhyw broblemau penodol gan gydweithwyr ond y byddai’n codi’r mater gyda’r Aelod y tu allan i’r cyfarfod.

Yng nghyswllt dirprwyon, dywedodd Aelod y dylai unrhyw bryderon gael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro i gael cyngor.

Atebodd Aelod ei fod wedi siarad gyda’r Swyddog Monitro a ddywedodd y gellid gweithredu’r Cyfansoddiad i ganiatáu defnydd dirprwyon ond teimlai na chafodd hyn erioed ei wneud o’r blaen. Dywedodd ei fod wedi bod eisiau mynychu cyfarfodydd pwysig o’r Pwyllgor Craffu a heb fedru gwneud hynny. Roedd wedi gofyn am gyfarfodydd ar y cyd ond ni fyddai wedi medru pleidleisio yn y cyd-gyfarfodydd hynny. Teimlai ei bod yn bwysig bod cysondeb Aelodau yn y Pwyllgorau Craffu er mwyn medru cymryd rhan lawn a dilyn lan ar unrhyw faterion.

Cyfeiriodd Aelod at broblemau a gafodd yn flaenorol gyda thechnoleg gwybodaeth ond bod SRS wedi gwneud gwaith ar ei liniadur sy’n awr yn gweithio’n iawn.

Yng nghyswllt offer technoleg gwybodaeth a chysylltedd, dywedodd Aelod efallai y gallai swyddog o SRS fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drin rhai o’r materion a holodd pryd y byddai gliniaduron yn cael eu diweddaru. Atebodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod y gliniaduron a roddir i Aelodau yr un fath â’r rhai a roddir i Swyddogion, mae’r cynllun buddsoddi yn mynd drwy’r

| | |
|---|---|
| | broses ddemocrataidd ar hyn o bryd a chaiff ei dilyn ar yr un fanyleb ag oedd gan Swyddogion. Ar hyn o bryd mae'r ffocws ar Aelodau yn cael mynediad i'w gliniaduron a gall unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer caledwedd gwahanol ei ystyried rywbryd yn y dyfodol. Mae cymorth arbennig gan SRS i Aelodau a defnyddid hyn ar gyfer y symud i weithio o bell. Roedd Swyddog wedi cysylltu ag Aelodau i ganfod os oedd materion penodol yr oedd Aelodau angen cymorth gyda nhw ac mae'n gweithio gyda'r Aelodau hynny a ofynnodd am gefnogaeth ychwanegol. Teimlai fod hwn yn ddull gwerthfawr i helpu cefnogi Aelodau a deall rhai o'r materion penodol y gallai SRS ganolbwyntio arnynt.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd efallai mai'r datrysiad fyddai cynnal sesiwn wybodaeth gyda'r SRS i esbonio rhai o'r problemau oedd gan Aelodau.<br><br>Yng nghyswllt y pryderon am ddirprwyon mewn Cyfarfodydd Pwyllgor, dywedodd Aelod fod hyn o fewn y Cyfansoddiad.<br><br>Dywedodd Aelod arall y credai ei fod yn dderbyniol i'w defnyddio os yw'r Cyfansoddiad yn caniatáu dirprwyon. Ar bwynt arall, canmolodd y Prif Swyddog Interim a'i thîm ar y ffordd y gwnaethant drin y newid i weithio o bell a'r problemau cysylltiedig.<br><br>Diolchodd y Prif Swyddog Interim Masnachol i Aelodau am eu sylwadau caredig a dywedodd ei bod yn bwysig ceisio deall y problemau neilltuol gyda thechnoleg gwybodaeth a gafodd rhai Aelodau ac i weithio gyda SRS i ganfod datrysiad. Teimlai y byddai'r dull gweithredu hwn gyda thargedau yn rhoi canlyniadau cyflymach a byddai'n cysylltu ag Aelodau i dynnu sylw at unrhyw broblemau penodol ac yn gweithio gyda SRS i ddatrys y sefyllfa.<br><br>Yng nghyswllt dirprwyon, eglurodd Aelod nad oedd yn erbyn y rheolau i ddefnyddio dirprwyon ond roedd etiquette yn y Cyngor lle dylai newidiadau gael eu gwneud yn y CCB ac nid hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Dywedodd y bu llawer o drafodaethau dros y 3 blynedd ddiwethaf am Aelodau oedd eisiau mynychu pwyllgorau neilltuol ac efallai y gallai hynny ddigwydd yn awr.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod dwy brif broblem, un yn ymwneud â dirprwyon a'r llall oedd cysylltedd technoleg gwybodaeth ac awgrymodd gyfeirio defnydd dirprwyon i'r Gweithgor Cyfansoddiadol i egluro ac edrych ar yr egwyddorion.<br><br>Dywedodd Aelodau nad oedd angen mynd i'r Gweithgor Cyfansoddiadol, byddai llythyr esboniad i Aelodau'r Pwyllgor yn ddigonol gan y teimlai mai penderfyniad gwleidyddol yw hyn.<br><br>Teimlai Aelod arall nad penderfyniad gwleidyddol mo hyn gan fod y Cyfansoddiad eisoes yn caniatáu defnydd dirprwyon. Atebodd yr Aelod na chafodd hyn erioed ei ddefnyddio o'r blaen a gan roi'r agwedd wleidyddol o'r neilltu, teimlai ei bod yn addas gofyn am lythyr esboniad am y rhesymau dros ddefnyddio dirprwyon ar ganol tymor yn hytrach nag yn y CCB. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Aelod arall yr ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro ac na chodwyd unrhyw broblemau, teimlai yntau hefyd nad penderfyniad gwleidyddol oedd hwn.<br><br>Ategodd yr Aelod y dylai naill ai'r arweinyddiaeth wleidyddol neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr anfon llythyr esboniad at Aelodau o'r Pwyllgor.<br><br>Cynigiodd yr Aelod y dylid anfon llythyr esboniad at Aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r rheswm pam y cafodd defnydd dirprwyon yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ei ddechrau ar ganol y tymor ac nid yn y CCB. Eiliwyd y cynnig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. |

| Item ID | 4563 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru 2021/22 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am y cynigion a gynhwysir yn adroddiad blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru 2021/22.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch, am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod os yw cynrychiolwyr ar Silent Valley yn derbyn tâl ac os felly os oedd hynny'n cael ei ystyried yn Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig. Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol fod cynrychiolwyr yn derbyn tâl ac y byddai'n rhoi mwy o wybodaeth am hynny ar y ddalen weithredu.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am Aelod yn dal mwy nag un swydd uwch, eglurodd y Prif Swyddog Interim Masnachol na fedrai Aelod etholedig dderbyn tâl am fwy nag un swydd uwch o fewn yr Awdurdod.<br><br>Dywedodd Aelod fod y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol yn cynnwys pedwar Aelod a holodd os y byddai gan Arweinydd y Grŵp hwn hawl i gydnabyddiaeth ariannol a gofynnodd am eglurdeb am faint o Aelodau oedd angen ar gyfer grŵp gwleidyddol sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol. Byddai'r Rheolwr Datblygu Sefydliadol yn ceisio eglurhad ar y mater hwn a byddai'n rhoi adborth i Aelodau drwy'r ddalen weithredu.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw Aelodau'r Cyngor ar Tai Calon yn cael cydnabyddiaeth ariannol ac os y rhoddir adroddiad ar unrhyw daliadau o'r fath. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol fod hyn yn cyfeirio at y Rhestr o Ad-daliadau, taliadau ar gyfer cyrff allanol a bod y meini prawf ar gyfer adrodd taliadau ychwanegol a wneir i Aelodau yn benodol iawn ac y |

| | |
|---|---|
| | byddai'n gwirio ar y mater neilltuol hwn ac yn rhoi adroddiad yn ôl drwy'r ddalen weithredu.<br><br>Yng nghyswllt Tai Calon, hysbysodd Aelod arall y Pwyllgor y cytunwyd tua 18 mis yn ôl y byddai Aelodau Cyngor ar Tai Calon yn derbyn tâl. Dywedwyd hefyd fod Aelodau Cyngor ar Silent Valley hefyd yn derbyn tâl.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell i'r Cyngor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y penderfyniadau a nodir yn Adroddiad Blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru 2021/22 yn Atodiad 1. |